Adroddiad i'r	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad y cyfarfod	30 Medi 2022
Swyddog Arweiniol	Steve Price
Awdur yr adroddiad	Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd
Teitl	Rôl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu dyletswyddau a phwerau statudol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gael Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i oruchwylio gwasanaethau democrataidd y Cyngor. Cyfarfod heddiw yw cyfarfod cyntaf y pwyllgor ers etholiadau'r Cyngor ym mis Mai, ac felly mae'n briodol ystyried rôl a chyfrifoldebau'r pwyllgor.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn nodi dyletswyddau a phwerau statudol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae'n rhaid i awdurdod lleol benodi pwyllgor gwasanaethau democrataidd er mwyn:

(a) dynodi pennaeth statudol y gwasanaethau democrataidd. Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yw'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, Steve Price, ac mae crynodeb o swyddogaethau'r rôl statudol i'w weld yn atodiad 1;

(b) adolygu digonolrwydd darpariaeth yr awdurdod o staff, llety ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, a

(c) llunio adroddiadau ac argymhellion i'r awdurdod yn ymwneud â darpariaeth o'r fath.

4.2. Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd sydd i benderfynu sut i gyflawni'r swyddogaethau hynny.

4.3. Penodir y cadeirydd ac aelodau'r pwyllgor gan y Cyngor llawn, a gall gynnwys dim mwy nag un aelod o'r Cabinet. Penderfynodd y Cyngor o'r blaen na fyddai aelodaeth y pwyllgor yn cynnwys aelodau o'r Cabinet. Ni all cadeirydd y pwyllgor fod yn aelod o grŵp gweithredol (y Cabinet). Yn Sir Ddinbych mae hyn yn golygu na all y cadeirydd fod o grwpiau Llafur na Phlaid Cymru.

4.4. Yn debyg i bwerau pwyllgor Craffu, gall y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd fod angen i aelodau a swyddogion yr awdurdod fod yn bresennol o'i flaen er mwyn ateb cwestiynau. Os oes angen i aelod neu swyddog fod yn bresennol, mae'n rhaid iddo/iddi ateb unrhyw gwestiynau oni bai bod y cwestiwn yn un y byddai hawl ganddo wrthod mewn llys. Gall y pwyllgor wahodd unigolion, cyrff neu sefydliadau eraill i fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y pwyllgor. Mae'n rhaid i'r pwyllgor gyfarfod o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn galendr.

4.5. Mae busnes a rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor yn debygol o gynnwys y pynciau canlynol (nid yw hon yn rhestr gyflawn):

- Hyfforddiant a datblygu aelodau
- Trefniadau cefnogi er mwyn i aelodau gyflawni eu rolau
- Cefnogaeth ar gyfer swyddogaeth Graffu y Cyngor
- Adolygu'r adnoddau sydd ar gael i aelodau (er enghraifft, llety a thechnoleg)
- Mentrau, deddfwriaeth ac ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar faterion democratiaeth leol, gan gynnwys amrywiaeth, cydraddoldeb a chyfranogi
- Tâl Aelodau

5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae’r pwyllgor yn ymgymryd â dyletswyddau statudol sydd â’r nod o gryfhau democratiaeth leol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae’r adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig, ac nid oes unrhyw oblygiadau cost.

7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o’r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad gwybodaeth hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Dim.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes angen Datganiad ar gyfer yr adroddiad gwybodaeth hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Ni nodwyd unrhyw risgiau o’r adroddiad hwn.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011